# Datgloi ein Potensial

*Dogfen ôl-syllol sy'n "edrych yn ôl" o 2020 …*

*Beth yw Gweledigaeth 2020? Mae "Datgloi ein Potensial" wedi bod wrth wraidd llawer o'r hyn mae'r esgobaeth yn ei wneud yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond beth yw diben hyn i gyd? Beth y mae'r Ardaloedd Cenhadaeth i fod i'w gyflawni?*

*Ysgrifennwyd y ddogfen hon o bersbectif 2021, fel pe baem yn edrych yn ôl ar y pum mlynedd diwethaf. Mae'n rhoi darlun o'r esgobaeth, Teulu Llanelwy, fel y gobeithiwn y bydd wedi datblygu:*

**Crynodeb**

Datgloi ein Potensial yw ymateb Esgobaeth Llanelwy i Adroddiad Harries, oedd yn annog eglwysi lleol i gymryd rhan mewn cenhadaeth a gwaith allanol yn y gymuned, gan gydnabod bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae. Ymhlith y newidiadau allweddol a amlinellir yn y ddogfen ôl-syllol hon y mae'r canlynol:

- Ysgogodd creu Ardaloedd Cenhadaeth ar newidiadau strwythurol a diwylliannol.

- Bellach mae Gweinidogion Trwyddedig yn gwasanaethu'r Ardal Genhadaeth gyfan ond maent wedi eu gwreiddio mewn eglwys benodol. Mae gan bob eglwys weinidog penodol a enwir.

- Mae Tîm Gweinidogaeth ar y Cyd a arweinir gan Arweinydd Ardal Genhadaeth yn cefnogi a darparu adnoddau ar gyfer disgyblaeth a chenhadaeth pob eglwys.

- Sefydlwyd Cynhadledd Ardal Genhadaeth gan bob Ardal Genhadaeth er mwyn gosod ei chyfeiriad strategol.

- Symudodd bywyd yr Eglwys tu hwnt i Addoliad ar y Sul er mwyn canolbwyntio ar anghenion y gymuned gan ymwneud

mewn modd gweithredol ag ysgolion lleol, gwasanaethau cymdeithasol, siopau cymunedol a chyfleusterau meddygol.

- Mae eglwysi yn gweithio gydag enwadau Cristnogol eraill.

- Mae Hyfforddi gyda'n Gilydd, a Sefydliad Padarn Sant yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer mathau newydd o weinidogaeth a gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â rolau traddodiadol. Mae clerigwyr a lleygwyr yn hyfforddi ochr yn ochr â'i gilydd.

- Archwiliodd pob Ardal Genhadaeth yr adeiladau eglwysig y mae'n gyfrifol amdanynt, er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben: yn gynnes, croesawgar a hyblyg, gan gynnig gofod addoli a man cymunedol.

- Roedd cyllid yr Ardal Genhadaeth yn cefnogi'r weledigaeth o eglwys gariadus sy'n tyfu, lle mae mwy o bobl yn awyddus i gymryd rhan a'i gweld yn ffynnu, nid dim ond goroesiad adeilad i'w ddefnyddio'n achlysurol ar gyfer priodas, neu fynwent fel lle i gael ein claddu.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn:

- Mae Llanelwy wedi symud o 'ddiwylliant o barch' hierarchaidd tuag at ddiwylliant cyfranogol ac atebol, lle caiff arweinyddiaeth ei rannu lle mae'n agored i gael ei gwestiynu a lle mae perchnogaeth wedi ei throsglwyddo i'r bobl.

- Mae'r lleygwyr wedi cael eu rhyddhau a'u hymrymuso i fynegi eu hymdeimlad o genhadaeth ac i arwain yr Eglwys, gyda chefnogaeth tîm gweinidogaeth ar y cyd o glerigwyr a gweinidogion lleyg trwyddedig.

- Mae'r eglwys leol yn bodoli fel presenoldeb bywiog a thystiolaethu sy'n gweinidogaethu i bob cymuned leol o fewn fframwaith uned fwy gan gynnig yr amrediad, yr amrywiaeth a'r awdurdod i feithrin a chynnal bywyd pob cynulleidfa trwy gydweithrediad a chyd-ddibyniaeth.

## Cyflwyniad

*Pam wnaethon ni drafferthu gyda Gweledigaeth 2020?*

---

Erbyn 2020, roedd Esgobaeth Llanelwy wedi cwblhau cam cyntaf ei hymateb "Datgloi ein Potensial" i Adroddiad Harries. Y nod oedd gwneud yn siŵr y byddai'r esgobaeth mewn cyflwr da er mwyn ymateb i genhadaeth Dduw drwy ddatblygu rhythmau newydd fyddai'n gweddu i'r heriau newydd oedd yn ei hwynebu.

Erbyn 2000, roedd yr esgobaeth, ynghyd â'r Eglwys Gristnogol yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, eisoes wedi profi dros 50 mlynedd o ddirywiad. Erbyn 2015, roedd traean o'i 240 o eglwysi eisoes â llai na dwsin o aelodau.

Roedd angen egni newydd ar eglwysi'r esgobaeth er mwyn tyfu yn eu ffydd a'u hysbrydolrwydd, i ail-ymgysylltu â'u cymunedau lleol, ac i ddangos i'n rhan ni o Gymru beth oedd bod yn ddisgyblion i Iesu Grist, anrhydeddu Duw a gwasanaethu'r byd yn eu golygu. Roedd angen i eglwysi lleol gymryd rhan mewn cenhadaeth a gwaith allanol yn y gymuned er mwyn dod ag Efengyl Iesu Grist mewn ffordd newydd i bobl Cymru. Roedd gofyn i eglwysi ddysgu o'r newydd sut i ddod yn gynhalwyr a thystion hyderus i newyddion da yr Efengyl.

Hyd yn oed cyn i Weledigaeth 2020 ddechrau, roedd y timau esgobaethol wedi ymrwymo i'r weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol. Roedd y cyfle yno i hyrwyddo ac annog y newid angenrheidiol. Er mwyn i "Datgloi ein Potensial" weithio, fodd bynnag, roedd angen iddo ymgysylltu a chynnwys pawb.

Dechreuwyd gydag adnewyddu strwythurau esgobaethol o gwmpas swyddogaeth allweddol y Pwyllgor Sefydlog a thri grŵp llywio fyddai'n yn symud yr esgobaeth tuag at ddiwylliant o weinidogaeth ar y cyd gyda pharodrwydd i roi cynnig ar newid a dysgu wrth arbrofi.

Os oedd dyfodol cryf i gael ei adeiladu, roedd angen i eglwysi a phobl ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio a chymryd disgyblaeth a gweinidogaeth holl bobl Dduw o ddifrif. Roedd angen i eglwysi rannu eu cryfderau a'r gwersi a ddysgwyd yn greadigol gyda'r eglwysi eraill yn yr

ardal. Roedd angen asesu adeiladau o ran eu haddasrwydd ar gyfer y dyfodol. Roedd angen i glerigwyr ysbrydoli ffurfiau newydd o weinidogaeth leyg, ymgorffori model lle'r oedd gweinidogaeth ar y cyd yn cefnogi a chynnal tîm integredig mewn ysbryd o barchu ei gilydd.

## Ardaloedd Cenhadaeth

*Cyflwyno ffordd newydd o Eglwysi yn cydweithio â'i gilydd*

---

Rhoddwyd y pwyslais ar newid diwylliannol, ond barnwyd bod rhywfaint o newid strwythurol yn angenrheidiol er mwyn gosod seiliau ar gyfer y dyfodol. Erbyn diwedd 2016, daeth uned fugeiliol sylfaenol yr esgobaeth yn gyfres o 21 Ardal Genhadaeth. Ffurfiwyd yr ardaloedd hyn cyn belled ag oedd modd i fod yn gymuned naturiol o Eglwysi a allai gydweithredu mewn cenhadaeth. Er mwyn dirnad a sefydlu'r ardaloedd cenhadaeth hyn, rhoddwyd cymorth a chyngor helaeth i eglwysi lleol gan fentoriaid pontio oedd yn gweithio ochr yn ochr â'r plwyfi i'w hannog ymlaen wrth lunio'r dyfodol.

Mae'r gwahanol eglwysi, pob un â chryfderau mewn gwahanol feysydd, boed hynny'n gyllid, arweinyddiaeth, pobl ifanc, doniau neu brofiad, yn cael cyfle i gefnogi'r eglwysi eraill yn eu hardal.

Mae Ardaloedd Cenhadaeth yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd: mae eglwysi'n cydweithredu â'i gilydd i gryfhau eu bywyd cyffredin, ac mae timau gweinidogaeth – yn ordeiniedig a lleyg – yn rhannu eu gweinidogaeth gyda theulu o eglwysi. Mae arweinyddiaeth yn yr Ardaloedd Cenhadaeth yn gynhwysol, gan werthfawrogi a dathlu traddodiadau gwahanol.

Bellach mae gan bob Ardal Genhadaeth Bwyllgor Gweithredol sy'n atebol i'r Gynhadledd Ardal Genhadaeth, ac sydd â chyfrifoldeb am strategaeth genhadol yr ardal. Mae'r pwyllgor gweithredol yn cynnwys arweinwyr lleyg ac ordeiniedig, gan gydnabod y doniau a'r sgiliau y mae Duw wedi eu rhoi i holl bobl Dduw.

**Gweinidogaeth a Thimau Gweinidogaeth ar y Cyd**
*Anogwyd ffordd newydd o gydweithio. Oherwydd bod gan bob disgybl i Iesu weinidogaeth i'w chynnig, gwahoddwyd y lleyg a'r ordeiniedig i weithio gyda'i gilydd fel timau*

---

Mae galwedigaeth offeiriadol holl bobl Dduw (1 Pedr 2.9) yn ganolog i'r weledigaeth. Gan ein bod i gyd yn ddisgyblion bedyddiedig i Iesu Grist, rydym i gyd yn cael ein hannog gan Dduw i gyflawni ein galwedigaeth ein hunain i'w wasanaethu ef drwy ein cymuned a'n heglwys yn ein bywyd a'n gwaith bob dydd.

Mae disgyblaeth a chenhadaeth yr Eglwys ym mhob ardal yn cael cefnogaeth ac adnoddau gan Dîm Gweinidogaeth ar y Cyd, wedi ei hwyluso gan Arweinydd Ardal Genhadaeth. Yn aml clerigwr cyflogedig yw'r unigolyn yma, er bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi wrth adnabod y rôl yma i'r ddirnadaeth o rodd arweinyddiaeth lle bynnag y mae Duw yn ei dyrchafu.

Mae'r tîm yn tynnu cefnogaeth o ystod eang o ddoniau sy'n cael eu gwahodd i weithio fel tîm. Mae'r timau gweinidogaeth yn cynnwys rhwng dau ac wyth clerigwr cyflogedig gyda gweinidogion lleyg trwyddedig a chlerigwyr di-dâl a pharod wedi ymddeol, yn galluogi ac annog ei gilydd. Mae pob gweinidog wedi ei drwyddedu i wasanaethu'r Ardal Genhadaeth gyfan, ond mae hefyd wedi ei wreiddio mewn cymuned eglwysig neilltuol, a dynodwyd gweinidog penodol a enwir i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ym mhob plwyf - ar gyfer aelodau'r eglwys a'r rhai y tu allan i'r eglwys sy'n ceisio ei gweinidogaeth. Mae gan weinidogion, lleyg neu ordeiniedig, hefyd 'arbenigeddau', gan adeiladu timau i weithio mewn meysydd penodol ar draws yr ardal genhadaeth gyfan, gan gefnogi pob eglwys yn ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth. Rhoddir pwyslais ar dimau o bobl yn cefnogi ei gilydd; yn gweithio gyda'i gilydd ac yn tynnu ar gryfderau ei gilydd. Yn ôl pob tebyg mae yna fwy o bobl bellach yn ymwneud â gweinidogaeth awdurdodedig weithredol nag ar unrhyw adeg yn hanes yr esgobaeth: mewn ysgolion ac ysbytai, gyda phlant a phobl ifanc, mewn gweinidogaeth fugeiliol a meysydd eraill. Ni ddisgwylir i unrhyw un gweinidog fod yn arbenigwr mewn popeth, ond yn hytrach mae'n rhan o dîm cefnogol.

Mae gan ardaloedd cenhadaeth lawer o ryddid i benderfynu ar ffurf eu tîm: mae sawl un wedi penderfynu cyflogi gweinyddwr y mae ei weinidogaeth yn galluogi clerigwyr a gweinidogion trwyddedig i ganolbwyntio ar y

gwasanaeth penodol y maent yn ei gynnig wrth wasanaethu'r Eglwys, neu weithwyr ieuenctid a theulu, neu rywun i arwain gweinidogaeth arloesol gyda'r rhai sydd fel arfer yn bell o'r Eglwys.

Un agwedd bwysig ar weinidogaeth esgobaethol yw ei hysgolion eglwys, ac nid dim ond ei heglwysi yn unig. Mae staff ysgol eglwys yn rhannu yn y weinidogaeth wrth iddynt dystiolaethu i werthoedd ac ysbrydolrwydd Cristnogol yn eu man gwaith. Cyflwynir cyfleoedd gan gaplaniaeth mewn ysgolion, ysbytai a mannau gwaith, a thrwy ymgysylltu mwy creadigol â chymunedau fel Canolfan Genhadaeth Wrecsam sy'n darparu adnoddau ar gyfer prosiectau ar hyd a lled yr esgobaeth.

Mae Tîm y Weinidogaeth yn dwyn ynghyd gweinidogaeth awdurdodedig yn yr Ardal Genhadaeth sy'n cynnwys tri grŵp:

- Gweinidogaethau lleyg wedi eu comisiynu'n lleol, sy'n cael eu datblygu a'u cydnabod o fewn yr ardal genhadaeth ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys gweinidogion Ewcharistaidd, cynorthwywyr bugeiliol, gweithwyr ieuenctid, plant a theulu, athrawon, gwaith allanol cymunedol ac arweinwyr addoliad.
- Gweinidogaethau lleyg sy'n cynrychioli'r cyhoedd, sy'n cael eu galw gan yr Eglwys ar lefel leol, ond sy'n cael eu hyfforddi gan yr esgobaeth a'u trwyddedu gan yr esgob: darllenwyr ac efengylwyr, bugeiliaid a gweinidogion ieuenctid, plant a theulu.
- Mae gweinidogaeth ordeiniedig diacon, offeiriad ac esgob, yn cynnwys adnewyddu'r ddiaconiaeth, a dealltwriaeth o offeiriadaeth fel rhywbeth sydd wedi ei wreiddio o fewn y lleol yn ogystal â'r cyffredinol.

Yn ogystal ag unigolion sy'n archwilio gweinidogaeth ddefnyddiadwy, gall cynulleidfaoedd ddirnad galwedigaethau o'u mysg. Gellir cyflwyno ymgeiswyr gan y Gynhadledd Ardal Genhadaeth ar gyfer eu dirnadaeth fel ordinandiaid neu weinidogion lleyg a fydd yn gwasanaethu, ar ôl ymffurfiad ac Addysg Weinidogaethol Gychwynnol, yn ôl yn eu hardal genhadaeth.

## Bywyd yr Eglwys

*Bod yn Eglwys - a disgyblion i Iesu Grist - 24/7*

---

Mae'r pwyslais ym mywyd yr eglwys wedi symud y tu hwnt i addoliad ar y Sul. Gyda phatrymau newydd o gyflogaeth a bywyd teuluol, mae weithiau'n anoddach i aelodau eglwys fod yn bresennol bob bore Sul yn eu heglwys, ond nid yw hyn yn cynrychioli dirywiad mewn disgyblaeth Gristnogol. I'r gwrthwyneb, mae eglwysi bellach yn weithgar iawn yn ystod yr wythnos gyda'r weinidogaeth yn estyn allan i famau a phlant bach, tadau a dynion ifanc, aelodau hŷn y gymuned, pobl ifanc a phlant a'r rhai sydd ag anghenion arbennig.

Mae eglwysi hefyd yn barod i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth wrth wynebu'r heriau o ddarparu gweinidogaeth i'r gymuned gyfan. Mae'r Eglwys, trwy weinidogaeth ar y cyd, hefyd yn ymgysylltu'n weithredol ag ysgolion lleol a gwasanaethau cymdeithasol, ac mewn ardaloedd gwledig mae'n aml yn noddi siopau cymunedol lleol a chyfleusterau meddygol. Mae nifer o ardaloedd cenhadaeth yn noddi nyrsys plwyf fel mynegiant ymarferol o les yr unigolyn cyfan.

Mae'r esgobaeth hefyd yn ymrwymedig i weithio ar draws y traddodiadau Cristnogol, mewn partneriaeth â'r holl eglwysi, ac yn wir gyda phob un o ewyllys da a sefydliadau cymunedol, er mwyn cario ymlaen â chenhadaeth teyrnas Dduw, ac i weithio dros gymdeithas gyfiawn a theg yng Nghymru.

## Disgyblaeth Gristnogol a Dysgu

*Wrth galon bywyd yr esgobaeth ...*
*er mwyn cefnogi disgyblaeth a chenhadaeth.*

---

Rhoddir pwyslais cryf ar gefnogi disgyblaeth, cenhadaeth a gweinidogaeth holl bobl Dduw. Mae'r rhaglen "Hyfforddi gyda'n Gilydd" yn pwysleisio bod angen i bob un ohonom hyfforddi ochr yn ochr â'n gilydd, yn lleyg ac ordeiniedig, gan ddatblygu fel Cristnogion aeddfed a chael ein harfogi â'r sgiliau dysgu angenrheidiol i wasanaethu ein heglwysi a'n cymunedau. Mae'r strategaeth hyfforddi yn ceisio galluogi pob ardal genhadaeth i werthfawrogi'r sgiliau a'r rhoddion sydd eisoes yn eu plith ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a allai fod ganddynt, ac i dyfu gyda'i gilydd fel timau.

Mae'r esgobaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Padarn Sant wrth gefnogi disgyblaeth a hyfforddi pobl ar gyfer mathau newydd o weinidogaeth, drwy'r rhaglen "Diwinyddiaeth am Oes" yn ogystal â bod yn fwy creadigol a chanolbwyntio ar genhadaeth yn yr hyfforddiant a gynigir ar gyfer gweinidogaeth leyg ac ordeiniedig traddodiadol. Wrth wraidd ein dysgu gyda'n gilydd y mae pwyslais ar weddi, tyfu mewn aeddfedrwydd a ffydd a dangos ffrwyth yr ysbryd. Rydym hefyd wedi dod yn fwy bwriadol ynghylch adnabod a meithrin arweinwyr y dyfodol.

Mae yno strwythur cefnogol esgobaethol a ddatblygwyd cyn 2015, lle mae tri grŵp llywio yn galluogi datblygiad strategol yn yr eglwysi: ar gyfer gweinidogaeth a disgyblaeth (*Datblygu*), gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, ac yn benodol trwy ein 51 o ysgolion eglwysig (*Meithrin*), a mynegiadau ymarferol o genhadaeth ym meysydd ymgysylltu cymdeithasol a chyfiawnder (*Ymgysylltu*).

Mae pwyslais yr eglwys ar ddisgyblaeth weithredol, fel bod addoliad a mynychu Eglwys yn elfennau pwysig o fewn mynegiant llawer ehangach o dystiolaeth a gwasanaeth Gristnogol lle mae disgyblion Iesu Grist yn byw yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gorff Crist yn y byd.

## Adeiladau a Chyllid

*Ail-werthuso beth rydym yn ei gymryd o'r gorffennol ymlaen i'r dyfodol*

---

Dau o'r heriau mwyaf a etifeddwyd oedd nifer yr adeiladau eglwysig, a'r gofyniad i ddarparu cymorth ariannol er mwyn cynnal gweinidogaeth gyflogedig. Mae'r esgobaeth wedi bod mewn cyflwr da yn ariannol, gyda chyfres o berfformiadau cryf. O dan yr wyneb, fodd bynnag, mae llawer o eglwysi, mawr a bach, wedi bod yn tynnu ar eu cronfeydd wrth gefn i gadw eu cefnogaeth i weinidogaeth yn gyfredol trwy gyfraniad plwyf.

Ym meysydd adeiladu a chyllid, mae disgwyl i'r ardaloedd cenhadol newydd chwarae rhan flaenllaw o ran dirnadaeth, gan dderbyn cefnogaeth arbenigol ac adnoddau gan yr esgobaeth. Mae pob ardal genhadaeth wedi edrych o ddifrif ar ei hadeiladau. Cynhaliwyd archwiliad gyda chymorth y timau esgobaethol, ac mae'r adeiladau eglwysig mewn ardal genhadaeth benodol a'u haddasrwydd ar gyfer cenhadaeth wedi cael eu gwerthuso.

Mae pob ardal genhadaeth wedi cael ei hannog i ganfod y canlynol yn eu hardal:

- Eglwysi hwb, sy’n gweithredu fel ffocws ym mywyd yr ardal, lle gall pobl Dduw ddod ynghyd o’r ardal genhadaeth gyfan, ac sydd hefyd yn gallu darparu adnoddau gweinidogaeth ar gyfer yr Ardal Genhadaeth gyfan.
- Eglwysi lleol, sy’n gallu cynhyrchu a chynnal arweinwyr a chyllid yn yr hir dymor, ac sy’n gallu recriwtio aelodau newydd drwy genhadaeth.
- Eglwysi sydd angen cydweithredu’n agos gyda’u cymdogion i sicrhau bod ganddynt y swyddogion a’r cysylltiadau plwyf angenrheidiol i gyfrannu’n gadarnhaol at fywyd yr ardal genhadaeth a chynnal eu tystiolaethu lleol.
- Categori newydd o eglwysi: cysegrfeydd neu eglwysi pererindod. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, ni all rhai eglwysi gynnal addoliad wythnosol, strwythur wardeniaid, aelodau Cyngor Plwyf Eglwysig, ysgrifenyddion na thrysoryddion mwyach. Mae llawer o’r eglwysi hyn yn llefydd hynafol o weddi ac maent yn rhan o dreftadaeth yr esgobaeth, felly gellir eu cynnal yn syml ac yn rhad fel mannau o sancteiddrwydd, i’w cadw yn agored ar gyfer pererinion, a chynnal efallai chwe gwasanaeth mewn blwyddyn ynddynt.
- Cafodd lle ysgolion ei gydnabod ymhellach, yn enwedig yn 51 o ysgolion Eglwys yr esgobaeth. Mewn rhai ardaloedd, mae’r ysgol wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer addoliad cymunedol, gan gymryd lle adeiladau eglwysig pan benderfynwyd eu bod wedi dod yn anaddas neu’n rhy ddrud i’w cynnal.

Y tu hwnt i hyn, fodd bynnag, gwnaed gwaith i sicrhau bod ein hadeiladau eglwysig yn addas ar gyfer addoliad: yn gynnes, yn groesawgar a hyblyg, gan gynnig cyfleusterau priodol. Rhoddodd eglwysi eu hadeiladau at wasanaeth y gymuned

Rhoddwyd meddwl creadigol i ystyried sut y gellid rheoli mynwentydd eglwysi a datblygwyd proses glir gyda chefnogaeth Adran Eiddo y Corff Cynrychioladol.

Yn anochel, wrth ystyried cenhadaeth i’r dyfodol, canfyddwyd nad oedd defnydd i rai eglwysi ac adeiladau eraill sy’n eiddo i’r eglwys. Fodd bynnag, roedd yr esgobaeth a’r ardal genhadaeth wedi gweithio gyda’i gilydd i gefnogi cynulleidfaoedd drwy’r broses o symud i ddyfodol ehangach ar y cyd yn yr ardal genhadaeth, yn hytrach na gorfodi cau, a cholli mwy o aelodau.

## Cyllid

*Annog cydweithrediad haelfrydig*

Mae newidiadau i'r fformiwla cyfran plwyf yn negawd cyntaf yr 21ain ganrif wedi sicrhau bod fformiwla deg yn ei lle er mwyn gofyn i'r plwyfi gyfrannu at gostau gweinidogaeth. Mi wnaeth datblygu ardaloedd cenhadaeth gadw'r fformiwla sylfaenol, ond dechreuodd plwyfi o fewn ardaloedd cenhadaeth penodol gyfuno adnoddau a dod o hyd i ffyrdd creadigol o gefnogi ei gilydd yn ariannol. Rhoddwyd buddsoddiad i ddatblygu diwylliant o stiwardiaeth a gwerthoedd yr Efengyl lle mae rhoi mewn gras haelfrydig yn rhan o'n hymateb i Dduw.

Weithiau mae hyn wedi peri tipyn o her mewn sefyllfa lle mae annibyniaeth ariannol draddodiadol wedi gwneud eglwys yn amharod i rannu'r hyn a oedd ganddi, ac yn hytrach na mentro ymlaen mewn cenhadaeth, dewiswyd gorffwys ar yr hyn a dybiwyd oedd diogelwch ei chyfrif banc. Sylweddolodd cynulleidfaoedd bod agwedd "pawb drostynt eu hunain" tuag at ariannu yn cynrychioli methiant i fyw yn ôl gwerthoedd yr Efengyl, oedd yn golygu y byddai eglwysi gwannach yn methu, gan arwain at fwy o faich ar y rhelyw o eglwysi. Drwy gymryd camau cynnar i sefyll gyda'i gilydd, mi wnaeth ardaloedd cenhadaeth ddarganfod bod y baich ariannol mewn gwirionedd yn cael ei leddfu, gan ganiatáu ar gyfer cynllunio strategol a chreadigol.

Roedd cyllid yr Ardal Genhadaeth yn annog y rhai oedd yn gallu i roi yn hael i gefnogi byw cenhadaeth Duw. Roedd y cefnogi'r weledigaeth o eglwys gariadus oedd yn tyfu, lle'r oedd mwy o bobl yn awyddus i gymryd rhan a'i gweld yn ffynnu, nid dim ond goroesiad adeilad i'w ddefnyddio ar gyfer priodas achlysurol, neu fynwent i gael ein claddu.

## Yr Esgobaeth

*Gweithio gyda'n Gilydd*

Mae Llanelwy wedi cymryd her Adroddiad Harries o ddifrif er mwyn symud o "diwylliant o barch" hierarchaidd tuag at ddiwylliant cyfranogol ac atebol, lle mae arweinyddiaeth yr esgobaeth yn cael ei rannu ac yn atebol, yn agored i'w gwestiynu, a lle mae perchnogaeth wedi ei throsglwyddo i bawb o bobl Dduw. Mae Cynadleddau Esgobaethol wedi dod yn ddigwyddiadau lle mae yna gydbwysedd rhwng mynegi gweledigaeth ac atebolrwydd. Mae Pwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth wedi dod yn brif fforwm

ar gyfer trafod a mynegi cynllunio a strategaeth yr esgobaeth. Mae'r iaith a ddefnyddir yn yr esgobaeth yn adlewyrchu'r symudiad tuag at ddiwylliant cyfranogol ac atebol. Cymerwyd camau ymwybodol i sicrhau bod iaith yn gynhwysol ac yn anogol, gan osgoi iaith a all ymddangos fel jargon i'r rhai y tu allan i'r Eglwys.

Erbyn 2020, mae'r newidiadau strwythurol wedi cael eu cwblhau i raddau helaeth. Mae pwyslais yr eglwys wedi cael ei ryddhau i ganolbwyntio mwy ar ei blaenoriaethau hir dymor o ddisgyblaeth a chenhadaeth. Anogir ardaloedd cenhadaeth i osod eu blaenoriaethau eu hunain, ac i ddirnad sut y mae Duw yn eu galw i dystiolaethu i Iesu Grist yn eu hardal eu hunain. Mae'r esgobaeth yn chwarae rôl o gefnogi a goruchwylio sy'n llai cyfarwyddiadol, ac sy'n caniatáu ar gyfer cyd-destun, hyblygrwydd a chyfrifoldeb lleol.

Mae'r lleygwyr wedi cael eu rhyddhau a'u hymrymuso i fynegi eu hymdeimlad o genhadaeth ac i arwain yr Eglwys, gyda chefnogaeth tîm gweinidogaeth ar y cyd o glerigwyr a gweinidogion lleyg trwyddedig. Mae eglwysi yn rhannu eu hadnoddau, a lle nad oes gan un eglwys efallai y màs critigol i gefnogi un agwedd ar y genhadaeth (megis gwaith ieuenctid neu alwedigaethau neu hyfforddiant) ar ei phen ei hun, gyda'i gilydd mae'r ardal genhadaeth yn gallu cynnal mentrau newydd. Mae'r eglwys neu'r plwyf lleol yn dal i fodoli fel presenoldeb ac yn gweinidogaethu i bob cymuned leol, ond erbyn hyn mae hyn yn digwydd o fewn fframwaith uned fwy, sydd â'r amrediad, amrywiaeth ac awdurdod i feithrin a chynnal bywyd pob cynulleidfa drwy alluogi cydweithrediad a chyd-ddibyniaeth.

Yn wreiddiol, roedd Gweledigaeth 2020 wedi gofyn a oedd gan yr Eglwys yng Nghymru y strwythurau, arweinyddiaeth ac adnoddau cywir i fod yn addas at y diben yng nghenhadaeth Duw i Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Dyma ein hymateb, wedi ei gynnig yn ostyngedig, gan chwilio i Dduw fod ar waith yn ein plith, ac awydd i weld Teyrnas Dduw yn tyfu ac i'w ewyllys gael ei wneud.